

“Y Salmu dicllon”

“Clyw fy llais, O Dduw, wrth imi gwyno.” (adn. 1)

Beth am ddarllen Salm 64:1–10 ac yna myfyrio

Fe ddaru ni ddweud ddoe bod mwyafrif y Salmu yn alarnadau. Dywedodd un Cristion amdany'n nhw fel hyn: “Dydw i byth yn darllen y Salmu dicllon gan eu bod nhw'n ei gwneud hi'n anoddach, nid yn haws, imi ymddiried yn Nuw. Dwi'n teimlo fel petawn i'n gwneud dim mwy na grwgnach yn erbyn Duw pan ydw i'n eu darllen nhw – rhywbeth mae'r Beibl yn ei gondemnio.”

Mae Dan Allender yn dwyn ein sylw wedyn at y ffaith bod “galarnadu mor wahanol i rwgnach ag ydy chwilio am rywbeth penodol i grwydro'n ddiarmacan.” Mae'r grwgnachwr wedi dod i'w gasgliadau am fywyd eisoes, wedi cau pob drws sydd yn gadael y meddwl yn agored gyda chwestiynau sydd yn ddim mwy na chyhuddiadau cudd. Mewn cyferbyniad i hynny wedyn, mae'r person sy'n galarnadu yn mynegi awydd i ddeall yr hyn sy'n digwydd. Mae'r person hwnnw'n curo ar ddrws calon Duw ei hun ac yn dweud: “Helpa fi i amgyffred beth sy'n digwydd, beth yw'r diben y tu ôl i'm sefyllfa.” Dydy o, neu hi, ddim yn chwythu bygythion o safbwyntiau sydd eisoes wedi eu penderfynu, ond yn tywallt teimladau poenus allan yn y gobaith y bydd rhai atebion yn cael eu rhoi. Cri o boen yw galarnad. Ceir llawer o enghreifftiau yn Salm 80. Dyma un ohonyn nhw: “Am ba hyd y gwrthodi weddiâu dy bobl?” (adn. 4). Mae galarnadu, o'i ddeall yn iawn, yn fwy o ymdeimlo â phoen colli yn hytrach nag ymdrechu i gael ateb.

Sylwch mor aml mae'r salmwyr, wedi iddyn nhw fynegi eu poen, yn disgyn yn ôl i freichiau Duw ac yn dweud: “Ond ymddiriedaf fi ynot ti” (Salm 55:23). Pan fyddwn ni'n galarnadu yr ydym ni'n bod yn real efo'n hemosiynau, yn bod yn driv i'r ffordd yr ydym yn teimlo am yr hyn sydd wedi digwydd i ni. Ond wedi mynegi'n teimladau, byddwn wedyn yn disgyn yn ein holau ar y sicrwydd bod Duw yn gwybod yn union beth mae o'n ei wneud. Mae lle i alarnadu ym mywydau pob un ohonom ni, ac mae grym mawr ynddo.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 22:1–5; Galar. 3:22–33; 3:38–40

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa beth cadarnhaol all ddod allan o fynd i mewn i boen colli?
2. At ba weithredu cadarnhaol ddylai galarnadu arwain?

Gweddi

Dysga rym galarnadu imi, fy Nhad, er mwyn imi allu ymdrin â holl anghenion fy enaid mewn ffordd sy'n cyfrannu at fy iechyd ysbrydol. Gwared fi rhag y math o ddefnyddiaeth nad oes dim realaeth iddo. Yn enw Iesu. Amen.